# CYNLLUN Y CYNGOR

## 2023-28







wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

# CYNNWYS

RHAGAIR . . . 3

EIN GWELEDIGAETH . . . 5

DYMA WRECSAM . . . 7

EIN CYNLLUN . . . 9

BLAENORIAETHAU'R CYNGOR . . . 10

CANLYNIADAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL . . . 12

SUT Y GWNAETHOM NI DDATBLYGU EIN CYNLLUN . . . 14

DATBLYGU EIN CANLYNIADAU CYDRADDOLDEB . . . 14

EIN CYLLID . . . 15

RHEOLI EIN PERFFORMIAD . . . 16

BLAENORIAETHAU'R CYNGOR . . . 17

DARPARU GWASANAETHAU STRYD EFFEITHIOL A DATGARBONEIDDIO EIN HAMGYLCHEDD . . . 17

DATBLYGU'R ECONOMI . . . 20

SICRHAU BOD WRECSAM YN LLE TEG A DIOGEL . . . 22

GWELLA ADDYSG A DYSGU . . . 24

HYBU IECHYD A LLES DA (GAN GANOLBWYNTIO AR WASANAETHAU CYMDEITHASOL AC IECHYD MEDDWL DA) . . . 26

CEFNOGI GWEITHLU AC YMGYSYLLTIEDIG SY'N CANOLBWYNTIO AR DDARPARU GWASANAETHAU . . . 28

**Cynllun y Cyngor yw'r ymdriniaeth y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i defnyddio i gyhoeddi ei Ddatganiad Lles a diffinio ei Amcanion Lles fel sy'n ofynnol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

# RHAGAIR

*Llythyr gan yr Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam*

Croeso i Gynllun Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2023 – 2028. Yn y ddogfen hon byddwn yn nodi ein gweledigaeth a'n huchelgeisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, wedi'u llywio gan eich barn a'ch dyheadau chi ar gyfer Wrecsam a'ch cymunedau. Mae'r cynllun yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n gyrru gweithgareddau'r cyngor, wedi'i chefnogi gan Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y cyngor a'i thanategu gan ein strategaethau a'n prosiectau lefel gwasanaeth. Mae'r cynllun yn rhoi manylion ein hamcanion lles, sef blaenoriaethau ein cyngor a'r canlyniadau yr ydym eisiau eu cyflawni o fewn y blaenoriaethau hyn er mwyn gwella lles cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Wrecsam.

Roedd datblygu cynllun newydd yn rhoi cyfle i'r cyngor adlewyrchu'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni dros y tair blynedd diwethaf, o dan amgylchiadau digynsail y pandemig Covid-19 a'r adferiad. Mae Wrecsam bellach ar bwynt cyffrous o'r siwrnai wella ac rydym eisiau parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed, sydd wedi digwydd o ganlyniad i gydweithio rhwng cynghorwyr, y gweithlu, partneriaid a chymunedau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, does amheuaeth fod tref Wrecsam wedi'i rhoi ar y map gan lwyddo i ennill statws dinas a bod yn agos i'r brig ar gyfer Dinas Diwylliant. Heb anghofio llwyddiannau yn y byd chwaraeon sydd wedi gweld Wrecsam a'r bobl sy'n byw yma'n cael eu hyrwyddo'n fyd-eang. Mae prosiect Porth Wrecsam ac amgueddfa bêl-droed Cymru yn enghreifftiau gwych o brosiectau sy'n rhoi proffil cenedlaethol i ni.

Rydym eisiau adeiladu ar gyffro ac uchelgeisiau'r Fwrdeistref Sirol dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwneud gwahaniaeth ar gyfer pobl Wrecsam, lle gallant wireddu eu breuddwydion a'u dyheadau. Rydym eisiau gweithio tuag at le sy'n gynaliadwy, yn fwy gwyrdd, yn diogelu ein pobl mwyaf diamddiffyn, yn uchelgeisiol a lle mae lles pobl yn dda.

Fodd bynnag, ar y cyd â hyn rydym yn cydnabod yr heriau parhaus mae ein cymunedau yn eu hwynebu, gan gynnwys yr argyfwng costau byw, anghydraddoldebau o fewn ein Bwrdeistref Sirol a newid hinsawdd. Mae hyn yn ychwanegol at yr effaith hirdymor y mae'r pandemig Covid-19 wedi ei gael ar ein cymunedau, yn arbennig ar y mwyaf diamddiffyn, ac ar blant mewn cyfnodau allweddol o'u datblygiad. Mae'r pryderon hyn wedi siapio blaenoriaethau ein cyngor a bydd yn parhau i sbarduno ein siwrnai tuag at welliant. Rydym wedi plethu ein canlyniadau cydraddoldeb i mewn i'r cynllun hwn, i wireddu ein hymrwymiad i gyflawni canlyniadau gwell a theg ar gyfer pawb, gan hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a lleihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol. Rydym eisiau gwrando mwy ar ein cymunedau ac adeiladu perthnasoedd gwell, lle mae pobl Wrecsam yn rhan o'r siwrnai. Mae gennym ysbryd cymunedol cryf yn Wrecsam yr ydym eisiau ei feithrin er mwyn grymuso ein cymunedau. Rydym am i Fwrdeistref Sirol Wrecsam fod yn lle y mae ein trigolion yn ffynnu ynddo.

Er mwyn cyflawni hyn rhaid i ni ddod yn gyngor effeithiol ac yn 2022 cyflawnom ein hunanasesiad cyhoeddedig gyntaf, o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu sut yr ydym yn gweithio a pha mor effeithlon yr ydym o rn ein defnydd o'n hadnoddau. Byddwn yn parhau i adolygu a chyhoeddi ein hunanasesiad bob blwyddyn a bydd ymateb i'r canfyddiadau yn cefnogi darpariaeth ein gweledigaeth.

Rhaid cael gweithlu medrus, amrywiol a chynaliadwy er mwyn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein cymunedau. Ymdrechwn i sicrhau fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 'gyflogwr o ddewis' er mwyn denu, recriwtio a chadw unigolion gyda'r sgiliau a phrofiad a fydd o fantais i'n cymunedau. Rydym yn sylweddoli fod hon yn  dasg heriol yng nghyd-destun y farchnad recriwtio genedlaethol sy'n hynod o gystadleuol a byddwn yn ceisio dal ati i ymateb i hyn drwy fentrau newydd i gefnogi recriwtio a dal gafael ar staff, er enghraifft cyflwyno dull 'Meithrin eich Talent eich Hun', i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio mewn meysydd penodol, megis gofal cymdeithasol.

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rydym wedi cydnabod na allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunaim, ac mai cydweithrediad rhwng ein partneriaid, busnesau a chymunedau fydd yn ein galluogi ni i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer pobl Wrecsam. Wrth ddatblygu'r gweithgareddau a strategaethau hyn sy'n tanategu gwaith y cynllun, rydym wedi sicrhau ein bod yn ymrwymo i ddulliau cynaliadwy o weithio gan gynnwys integreiddio a chydweithio. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am ein gweledigaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac rydym eisiau parhau i gydweithio gyda chi, pobl a chymunedau Wrecsam i gyflawni ar y cynllun.

**Cllr Mark Pritchard**
**Arweinydd**

**Ian Bancroft**
**Prif Weithredwr**

## EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw: cefnogi'r bobl sy'n byw yma i gyrraedd eu llawn botensial, i lwyddo a chyrraedd safon uchel o les. Byddwn yn arweinydd cymunedol cryf a chynhwysol i helpu i wneud i hyn ddigwydd, gyda ffocws cryf ar ymddygiadau a gwerthoedd cadarn.

Dyma ein gwerthoedd:

- Grymuso
- Ymddiriedaeth a gonestrwydd
- Dyhead
- Cydweithio
- Gwneud gwahaniaeth
- Tegwch

Mae Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan') yn berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swydd gyhoeddus. Mae'r rhain yn sail i'n hymagwedd at ein Gwerthoedd.

### MEWN 10-15 MLYNEDD, BYDD ECONOMI'R FWRDEISTREF SIROL ...

- Yn ffynnu ac yn gadarn, yn ennyn hyder ac yn annog buddsoddiad gan ddatblygwyr, busnesau a sefydliadau;
- Yn economi mwy amlbwrpas, mwy pleserus, o ansawdd uchel yn ystod y dydd a'r nos sy'n apelio at bobl sy'n byw, dysgu a gweithio yn Wrecsam;
- Yn gymysgedd da o ddiwydiant traddodiadol gydag economi sgiliau a gwybodaeth;
- Wedi'i gysylltu'n rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol – o ran teithio a chyfathrebu;
- Yn cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth, gyda chyflogau uwch a mwy o foddhad mewn swydd; ac
- Yn gwerthfawrogi pobl hŷn drwy barhau i ddefnyddio eu sgiliau a'u harbenigedd mewn lleoliadau gwaith neu drwy gyfleoedd gwirfoddoli.

### MEWN 10-15 MLYNEDD, BYDD POBL Y FWRDEISTREF SIROL YN...

- Byw yma am eu bod yn dewis gwneud hynny - ac yn falch o'u hunaniaeth a'u diwylliant;
- Meddu ar ddyheadau uchel ar gyfer addysg a bywyd, gyda'r sgiliau, y cyfleoedd a'r dulliau i'w cyflawni;
- Cefnogi plant a phobl ifanc i gael y lle a'r cyfle i chwarae;

- Meddu ar gyfleoedd cyfartal waeth beth fo'u hamgylchiadau personol;
- Meddu ar y dulliau o wneud dewisiadau bywyd da i'w cadw'n iach ac yn hapus gan ddibynnu llai ar wasanaethau cyhoeddus;
- Cynnwys unigolion gwydn sy'n byw mewn cymunedau cryf a gwydn lle nad oes unrhyw un yn, neu'n teimlo'n unig neu ar wahân, lle bo pobl yn derbyn cyfrifoldeb am eu hunain a'u hardaloedd; ac yn
- Cael cyfleoedd i ymgysylltu mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden ar gyfer pob oed.

## MEWN 10-15 MLYNEDD, BYDD Y FWRDEISTREF SIROL YN LE GYDA...

- Chefn gwlad a threftadaeth unigryw a hardd sy'n cael ei hystyried fel y porth i Ogledd Cymru a lle mae pobl eisiau bod ac yn falch o ddweud eu bod yn dod o'r ardal;
- Arwyddocâd rhanbarthol a chenedlaethol gyda chanol dinas sy'n llawn hwyl, yn gymdeithasol ac yn ddifyr ac yn cynnwys pawb sy'n byw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddi;
- Canol dinas lân sy'n cael ei rheoli'n dda, sy'n cynnal digwyddiadau a gweithgareddau cyffrous yn rheolaidd i sefydlu Wrecsam fel prif gyrchfan yn y rhanbarth;
- Cysylltiadau cludiant cyhoeddus ac isadeiledd da er mwyn i bobl gael mynediad hawdd at y gwasanaethau a'r cyfleusterau y maent eu hangen a'u heisiau, a'r gallu i deithio i ddinasoedd mawr eraill;
- Tai o ansawdd da i bawb, boed yn dai cymdeithasol neu dai rhentu preifat; a
- Lefelau isel o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel waeth beth yw eu cefndir neu eu dewisiadau mewn bywyd.

# DYMA WRECSAM

## DAEARYDDIAETH

Mae gan Fwrdeistref Sirol Wrecsam ardal ddaearyddol o 193 milltir sgwâr (499 km sgwâr). Mae'r ardal yn cynnwys amrywiaeth o asedau diwylliannol.

- Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn disgyn o fewn rhannau o'r Fwrdeistref Sirol.
- Mae Wrecsam yn gartref i un o glybiau pêl-droed hynaf Cymru a'r Stadiwm bêl-droed rhyngwladol hynaf sy'n dal i gael ei ddefnyddio.
- Mae gŵyl gerddoriaeth ryngwladol 'FOCUS Wales' yn cael ei chynnal yn flynyddol yn Wrecsam.
- Mae dau eiddo Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Erddig a Chastell y Waun) wedi'u lleoli o fewn y Fwrdeistref Sirol.

## POBLOGAETH

- Yn ôl Cyfrifiad 2021 amcangyfrifwyd fod poblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam oddeutu 135,100.
- Mae cyfanswm o tua 57,900 o aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Oedran cyfartalog pobl sy'n byw yma yw 42 oed, ac mae dros chwarter ohonom yn y grŵp 45 a 64 oed.
- Yn Wrecsam mae'r ganran uchaf o bobl 0-19 oed yng Ngogledd Cymru.
- Mae 20% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 65 oed a hŷn, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (21.4%).
- Mae canran y boblogaeth ar y cyfan sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 12.2%.

## ADDYSG A CHYFLOGAETH

- Mae 67 o ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam - 58 o ysgolion cynradd a 9 ysgol uwchradd.
- Mae 29% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n 16 oed a hŷn wedi'u cymhwyso i NVQ Lefel 4 neu uwch.
- Mae oddeutu 60,000 (54.5% o'r boblogaeth 16 oed a hŷn) mewn gwaith. O'r rhain, mae 72% wedi'u cyflogi yn llawn amser a 28% wedi'u cyflogi'n rhan amser.
- Gweithgynhyrchu, masnach fanwerthu (gan gynnwys atgyweirio cerbydau) ac iechyd dynol a gwaith cymdeithasol yw'r sectorau sy'n cyflogi'r rhan fwyaf o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Mae 70% ohonom yn teithio i'r gwaith fel gyrrwr neu deithiwr mewn car neu fan, tra bo 18% ohonom yn gweithio yn bennaf o'r cartref.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

- Mae 79% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn adrodd bod eu hiechyd yn dda iawn neu'n dda, tra bo 20% ohonom yn ystyried ein gweithgareddau dydd i ddydd i fod yn gyfyngedig i ryw raddau yn sgil problem iechyd hirdymor neu anabledd.
- Mae 10% o drigolion ein Bwrdeistref Sirol sy'n 5 oed neu'n hŷn ar hyn o bryd yn darparu gofal di-dâl i eraill.

## AMDDIFADEDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

- Some of our urban areas are amongst the most deprived in Wales. There are 6 Lower Layer Super Output Areas in Wrexham County Borough that are in the 10% most deprived in Wales.

## TUEDDIADAU I'R DYFODOL

Mae ymchwil presennol, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon o'r boblogaeth yn 2028, yn dweud wrthym ni, yn y pum mlynedd nesaf:

- Disgwylir i boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam ostwng o tua 1%.
- Disgwylir i Fwrdeistref Sirol Wrecsam brofi'r gostyngiad mwyaf ar draws Cymru o ran niferoedd plant a phobl ifanc 15 oed ac iau - gostyngiad o 6.5%.
- Rhagwelir cynnydd yng nghanran ein poblogaeth sy'n 65 oed a hŷn o tua 6.7%.
- Disgwylir i nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n cael anawsterau â gweithgareddau bywyd dydd i ddydd barhau i gynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf.

# EIN CYNLLUN

Rydym yn darparu llawer o wasanaethau i chi, p'un a ydych yn byw yma, yn gweithio yma neu'n ymweld, megis: ysgolion, casglu gwastraff, gofal cymdeithasol, tai cyngor, gwasanaethau cynllunio, ffyrdd, amgueddfeydd, parciau gwledig, safonau masnach. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon cynnal y rhain, rydym eisiau canolbwyntio ar welliannau ar gyfer y dyfodol a bod yn uchelgeisiol gyda'n cynlluniau. Ein cynllun yw'r lle yr ydym yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y cyngor am y pum mlynedd nesaf; mae'n rhoi gweledigaeth a chyfeiriad ar gyfer yr hyn y byddwn yn gweithio tuag ato yn y tymor canolig drwy ganolbwyntio ar ddyfodol hirdymor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae Cynllun y Cyngor yn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad tuag at saith **nod lles cenedlaethol Cymru** a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cynllun y Cyngor yn cyflwyno ein hamcanion lles sef blaenoriaethau'r Cyngor. Gallwch weld manylion am sut mae blaenoriaethau ein cyngor yn cysylltu â nodau lles Cymru ar dudalennau unigol blaenoriaeth y cyngor.

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** - sy'n galw arnom i weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Mae'r ddeddf yn sicrhau wrth ddatblygu ein blaenoriaethau fel cyngor, ein bod yn sefydlu 'pum ffordd o weithio' i lywio ein penderfyniadau a sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd mwy cynaliadwy, gan gynnwys:

- Edrych i'r hirdymor.
- Gweithredu mewn modd integredig.
- Cynnwys pobl mewn penderfyniadau.
- Gweithio mewn modd cydweithredol.
- Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu rhwystro rhag digwydd neu waethygu.

# BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

I gyflawni ein gweledigaeth fe gytunom i ganolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth a fydd yn rhoi cyfeiriad ar gyfer ein holl wasanaethau dros y pum mlynedd nesaf. O fewn pob blaenoriaeth, rydym wedi nodi pa ganlyniadau rydym eisiau gweithio tuag atynt. Mae'r canlyniadau yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer ein siwrnai tuag at welliant ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam, pobl Wrecsam a'n cymunedau.

## EIN CHWE BLAENORIAETH FEL CYNGOR YW:

### DARPARU GWASANAETHAU STRYD EFFEITHIOL A DATGARBONEIDDIO EIN HAMGYLCHEDD

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw amgylchedd glan, deniadol a chynaliadwy i les cymunedau ac ar gyfer y rhai hynny sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae gwasanaethau amgylcheddol effeithiol a chadarn yn hanfodol bwysig o ran sicrhau bod canol ein dinas, ein cymunedau a'n priffyrdd yn cael eu gofalu amdanynt ac mewn cyflwr da. Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu Gwasanaethau Stryd Effeithiol yn unol â'r ymrwymiadau gwasanaeth yr ydym wedi eu gwneud. Wrth wella ein hamgylchedd byddwn yn sicrhau bod Argyfwng yr Hinsawdd, un o faterion pwysicaf ein hoes, yn ystyriaeth flaenllaw yn yr holl benderfyniadau yr ydym yn eu gwneud. Byddwn yn edrych ar yr hirdymor ac yn creu cymunedau cynaliadwy a chryf sy'n gallu addasu i heriau amgylcheddol y dyfodol.

Yr hyn a ddywedodd Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam wrthym: Gall byw wrth ymyl, a defnyddio mannau gwyrdd helpu i wella iechyd, ni waeth beth yw dosbarth cymdeithasol pobl.

### DATBLYGU EIN HECONOMI

Mae'r economi yn sbardun pwysig ar gyfer gwella Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Rydym eisiau creu economi cryf, ffyniannus a theg sy'n cefnogi ein cymunedau ac yn rhoi hyder ac anogaeth i ddatblygwyr, busnesau a sefydliadau fuddsoddi yma. Rydym am i sir Wrecsam gael ei gweld fel y porth i Ogledd Cymru gyda threftadaeth unigryw a chefn gwlad hardd. Bydd ein heconomi yn cefnogi pobl yn ein cymunedau i gael mynediad at ystod o gyfleoedd cyflogaeth, gyda chyflogau uwch a gwell boddhad mewn swydd.

Yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr wrthym ni: "Mae angen adfywio canol y ddinas a'r ardaloedd cyfagos, gyda mwy o gyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant ac annog mewnfuddsoddiad".

### SICRHAU BOD WRECSAM YN LLE TEG A DIOGEL

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae bod yn ddiogel a theimlo'n ddiogel yn bwysig i breswylwyr ac ymwelwyr a gall canol y dref gael dylanwad mawr ar ansawdd bywyd pobl. Byddwn yn gweithio tuag at greu Bwrdeistref Sirol sy'n gymuned deg, cyfiawn a chynhwysol, lle gall bobl gael mynediad at dai a llety safonol diogel sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion. Gyda'r argyfwng costau byw parhaus, byddwn yn gweithio tuag at sicrhau fod pawb, yn arbennig unrhyw un sy'n ddiamddiffyn, sy'n profi tlodi neu'n delio â heriau costau byw, yn cael mynediad at gymorth a gwasanaethau i alluogi gwell ansawdd bywyd.

Yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr wrthym ni: "Mae'n bwysig fod pawb yn cael mynediad teg a chyfartal at wasanaethau".

## GWELLA ADDYSG A DYSGU

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, rydym yn cydnabod yr effaith mae addysg a dysgu yn ei gael ar bob grŵp oedran. Byddwn yn gweithio ar draws holl wasanaethau'r cyngor a gyda'n partneriaid i gefnogi pobl yn ein cymunedau i gael mynediad at y cyfleoedd dysgu iawn er mwyn gwireddu eu potensial, beth bynnag eu cefndir neu amgylchiadau. Byddwn yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysgol drwy gefnogi dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a gwella cyfleoedd dysgu gydol oes. Rydym eisiau darparu gwasanaeth a chymorth addysgol a dysgu a fydd yn fuddiol i bobl yn ein cymunedau i ddatblygu eu sgiliau a chyflawni eu dyheadau.

Beth ddywedodd ein preswylwyr wrthym ni: "Mae gwella safonau a chyfleoedd addysgol bob amser yn mynd i fod yn ddyhead, mae'n bwysig canolbwyntio ar sgiliau bywyd a chyflogadwyedd ar gyfer dysgwyr o bob oed".

## HYBU IECHYD A LLES DA (GAN GANOLBWYNTIO AR WASANAETHAU CYMDEITHASOL AC IECHYD MEDDWL DA)

Mae iechyd a lles da yn ganolog i sicrhau fod pobl yn ein cymunedau'n cael y cyfleoedd bywyd gorau sydd ar gael iddynt. Byddwn yn cefnogi pobl yn ein cymunedau i elwa o iechyd a lles da trwy alluogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i fod yn gadarn a thrwy leihau effaith anghydraddoldebau iechyd. Ar y cyd â'n partneriaid rydym eisiau darparu gwasanaethau atal a chymorth cynnar sy'n lleihau'r angen am ymyraethau mwy acíwt yn ddiweddarach. Rydym eisiau i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol deimlo bod eu llais yn cael ei glywed ac i gael yr offer i fyw mor annibynnol â phosibl.

Yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr wrthym ni: "Mae lles plant yn hollbwysig. Gall profiadau andwyol yn y blynyddoedd cynnar fod yn anodd iawn i'w goresgyn yn ddiweddarach mewn bywyd".

## CEFNOGI GWEITHLU HYFEDR AC YMGYSYLLTIEDIG SY'N CANOLBWYNTIO AR DDARPARU GWASANAETHAU

Rhaid bod â gweithlu medrus, amrywiol a chynaliadwy i ddarparu'r gwasanaethau y mae ein cymunedau eu hangen ac yn dymuno eu cael. Mae iechyd a lles ein gweithwyr yn hollbwysig o safbwynt cynnal gweithlu cadarn sy'n barod i addasu er mwyn darparu gwasanaethau. Byddwn yn cefnogi ein gweithlu drwy sicrhau ein bod yn cynnal ein hymagwedd weithredol tuag at les gweithwyr ac yn sicrhau y sefydlir arferion rheoli pobl cadarn i gefnogi a rheoli gweithwyr sy'n profi cyfnodau o salwch, i gynnal lefelau uchel o bresenoldeb a pharhau i leihau lefelau absenoldeb.

Yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr wrthym ni: "Mae'n bwysig sicrhau bod y cyngor yn darparu cyfleoedd cyflogaeth da a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa er mwyn denu gweithlu medrus ac amrywiol".

# CANLYNIADAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Mae cydraddoldeb yn golygu sicrhau fod bywyd yn deg i bawb. Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn gyfraith i sicrhau fod gan bawb yr un mynediad at gyfleoedd. Rhaid i bob corff cyhoeddus ystyried effaith eu penderfyniadau ar bobl o grwpiau gwahanol, a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Mae'r grwpiau hyn yn bobl sydd â 'nodweddion gwarchodedig' fel y'u nodir yn y Ddyletswydd Cydraddoldeb.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at Fwrdeistref Sirol fwy teg, ac o ystyried ein dyletswyddau i sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn deg rydym wedi pennu 12 o ganlyniadau cydraddoldeb yr ydym eisiau gweithio tuag atynt dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r rhain wedi'u sefydlu o fewn ein canlyniadau Cynllun y Cyngor.

Gallwch ddarganfod mwy am y ffordd y penderfynom ar ein canlyniadau cydraddoldeb ar y dudalen **'Sut ddatblygom ni ein cynllun.'**

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein dyletswydd, elfen Cynllun Cydraddoldeb Strategol ein Cynllun y Cyngor, ein Hasesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a sut y gwnaethom ddatblygu ein canlyniadau cydraddoldeb ar ein **tudalen Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chydlyniant Cymunedol.**

Y canlyniadau cydraddoldeb a nodom yw:

- Mae'r cyngor yn 'gyflogwr delfrydol' sy'n gallu recriwtio a chadw gweithlu amrywiol a chynaliadwy, gydag ymagwedd fodern tuag at waith a fframwaith o wobrau a buddion gweithwyr.
- Bydd unrhyw fylchau a ddynodir rhwng cyflogau dynion a merched yn cael eu hadolygu a'u deall yn well, Bydd gwaith priodol yn dechrau i fynd i'r afael â'r bwlch hwn a bylchau eraill lle bo hynny'n berthnasol.
- Mae ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n hawdd, trwy systemau digidol sydd wedi'u hadeiladu o amgylch eu hanghenion. Mae ein gwasanaethau yn gynhwysol ac rydym yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r cwsmeriaid hynny a hoffai ddefnyddio ein gwasanaethau digidol, yn ogystal â pharhau i gynnig ffyrdd mwy traddodiadol o gysylltu â ni, ar gyfer y rhai sydd angen hynny.
- Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ffynnu o fewn ein gweithlu a'n cymunedau ac yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi.
- Mae Wrecsam yn rhywle lle y mae pawb yn gwybod y gallant gymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd pobl yn teimlo'r ymgysylltiad ac yn gwybod bod y cyngor eisiau ymgynghori â nhw ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a lle bynnag bosib ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau a gwneud i bethau ddigwydd gyda'n gilydd.
- Mae pobl yn cael eu diogelu rhag cam-fanteisio, trais a'r holl ffurfiau o gamdriniaeth, trwy weithio mewn partneriaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o ddioddefwyr cam-fanteisio a'r llwybrau adrodd sydd ar gael.
- Mae ein cymunedau yn groesawgar, rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau ac yn sicrhau mynediad priodol i bawb ar yr holl wasanaethau.

- Mae pobl sy'n chwilio am loches rhag rhyfel neu argyfwng dyngarol yn cael eu cefnogi i adeiladu dyfodol cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol.
- Caiff pob dysgwr eu cefnogi i wella eu canlyniadau addysgol, a bydd anghydraddoldebau mewn canlyniadau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn cael eu lleihau.
- Mae ein dysgwyr yn cael profiad dysgu cadarnhaol trwy fynediad at amgylchedd sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben ac yn caniatáu dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.
- Mae cymunedau a gwasanaethau'n cydweithio i helpu plant ac oedolion i fod ag iechyd meddwl a lles da. Mae ffocws ar gymorth iechyd meddwl a ddarperir drwy wasanaethau iechyd meddwl ataliol a chymorth cynnar er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau yn hwyrach ymlaen.
- Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cymdeithasol yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio drwy wrando ar yr hyn y mae plant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr yn ei ddweud wrthym.

Er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau i fod y meysydd cywir i ganolbwyntio arnynt, byddwn yn defnyddio gwybodaeth gydraddoldeb berthnasol i adolygu ein canlyniadau a llywio penderfyniadau ar draws y cyngor. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y data cydraddoldeb yr ydym yn ei gasglu ar ein **tudalen Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chydlyniant Cymunedol** sy'n cynnwys gwybodaeth monitro cydraddoldeb y gweithlu ynghyd â gwybodaeth ar unrhyw wahaniaethau cyflog posibl a ganfyddir. Ar y cyd â hyn mae'r dudalen **'Dyma Wrecsam'** , yn darparu data allweddol yr ydym yn ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau perthnasol i boblogaeth a nodweddion gwarchodedig Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## SUT Y GWNAETHOM NI DDATBLYGU EIN CYNLLUN

This plan was developed during 2022/23 through an integrated and collaborative approach including discussion with the people who deliver our services, workshops with our Council Members to consider the proposed outcomes from their knowledge of the people living within their wards, and a public consultation with people across Wrexham including those with protected characteristics. We also looked at a range of evidence including:

- Data ac ystadegau cyhoeddedig, er enghraifft data Cyfrifiad 2021.
- Yr hyn a wyddom am ein cymunedau o dystiolaeth leol ac ymchwil am iechyd a lles pobl.
- Negeseuon ac adborth am weithgareddau cyfranogi a gynhaliwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau presennol ein cyngor a meysydd gwaith eraill.

Ar y cyd â'r dystiolaeth a nodwyd uchod, mae blaenoriaethau ein cyngor wedi'u hysbysu gan Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam. Cafodd Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam ei gynhyrchu yn dilyn ymchwil ac ymgysylltiad eang gyda phobl ar draws Wrecsam. Roedd y gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hynod o ddefnyddiol ac yn codi meysydd allweddol i'w hystyried ar gyfer blaenoriaethau ein cyngor, a ddatblygwyd ar y cyd ag amcanion a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar draws Sir y Fflint a Wrecsam.

## DATBLYGU EIN CANLYNIADAU CYDRADDOLDEB

Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at Fwrdeistref Sirol decach, cyflawnom ymchwil gan gynnwys adolygiad o'n canlyniadau cydraddoldeb blaenorol a data a thystiolaeth a ystyriwyd o adroddiadau cenedlaethol, gwybodaeth Gogledd Cymru a gwybodaeth leol. Mae'r dadansoddiad a gyflawnwyd yn awgrymu nifer o feysydd y gall ein gwaith ganolbwyntio arnynt. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein tudalen Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chydlyniant Cymunedol o dan yr adran Canlyniadau Cydraddoldeb.

### YMGYNGHORIAD

Er mwyn cael adborth ar flaenoriaethau a chanlyniadau arfaethedig y Cyngor, cyflawnom ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Chwefror a Mawrth 2023. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltiad â grwpiau cynrychioliadol gyda nodweddion gwarchodedig (fel y'u diffinnir yn y y Ddeddf Cydraddoldeb). Gofynnom ai'r blaenoriaethau a'r canlyniadau yr oeddem wedi'u nodi yn ein Cynllun y Cyngor drafft oedd y meysydd iawn i ganolbwyntio arnynt ac a oedd unrhyw bethau eraill y dylem eu cynnwys.


Roedd y dulliau ymgynghori yn cynnwys:

- Arolwg ar-lein ar lwyfan 'Eich Llais.'
- Arolwg wedi'i argraffu ar gael i'r rhai nad oedd yn gallu ymgysylltu'n ddigidol.
- Ymgysylltiad gyda grwpiau cymunedol fel rhan o'u cyfarfodydd rheolaidd (e.e. Canolfannau Clyd a grwpiau cefnogi pobl eraill ag anghenion gwahanol).
- Grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda Senedd yr Ifanc Wrecsam.
- Ymgysylltiad mewn digwyddiadau cymunedol, gyda chynghorau cymuned, staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a chynrychiolwyr undebau llafur.

Mae mwy o fanylion ar gael yn ein hadroddiad ymgynghori llawn ar ein gwefan o dan yr adran Canlyniadau Cydraddoldeb.

## EIN CYLLID

**2023/24 Cyllid Refeniw - £406,843,149**




Mae blaenoriaethau'r cyngor yr ydym wedi cytuno arnynt yn uchelgeisiol felly bydd yr adnoddau ariannol sy'n ofynnol wedi'u hadlewyrchu yn y cyllidebau a osodir ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd blaenoriaethau'r cyngor yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau yn y dyfodol. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi'r dull o reoli ein cyllidebau yn ogystal â'r materion eang a fydd yn effeithio ar ein sefyllfa ariannol dros y tymor canolig; mae'n darparu manylion ar y refeniw a'r adnoddau a fydd ar gael ar gyfer ein meysydd blaenoriaeth a'r gwasanaethau sy'n cefnogi'r rhain. Mae rheolaeth ein hadnoddau a'n hasedau yn cael ei lywio gan Gynllun y Cyngor a darpariaeth ein gweledigaeth.

Mae'n bwysig nodi bod rhai o'r gweithgareddau rydym wedi'u nodi sy'n tanategu ein canlyniadau, wedi'u hariannu gan grant neu eisoes ag adnoddau wedi'u dyrannu yn eu proses cynllunio cynnar.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 15 Chwefror 2023 yn amlygu diffyg posibl mewn refeniw o tua £9.5 miliwn ar gyfer y cyfnod 2024/25 - 2025/26. Fodd

bynnag mae'r cynnydd mawr mewn prisiau, cyflogau a'r galw am wasanaethau wedi creu pwysau costau ychwanegol y bydd yn rhaid ei ystyried ac a fydd yn cael ei adlewyrchu mewn Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaredig, lle mae maint y diffyg mewn refeniw yn debygol o fod yn fwy arwyddocaol. Yn wir mae'n debygol y bydd maint y pwysau costau yn llawer mwy nag yn unrhyw gyfnod arall dros y ddegawd ddiwethaf. Hyd yn oed ar adegau anodd iawn, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad ar y mannau lle mae ei angen fwyaf. Mae cyllideb 2023/24 yn cydnabod pwysau'r galw ym maes Gofal Cymdeithasol a chynnydd costau chwyddiannol yn cynnwys cyflogau ac ynni i holl wasanaethau'r cyngor, yn cynnwys ysgolion, a bydd cyllidebau yn parhau i gynnal blaenoriaethau'r Cyngor wrth i ni symud ymlaen, hyd yn oed mewn cyfnod ariannol heriol.

Yn 2023/24 mae cyllid ychwanegol penodol hefyd wedi'i ddarparu i'w fuddsoddi ym mlaenoriaethu Cynllun y Cyngor, cynnal a chadw ac ail-wynebu priffyrdd ynghyd â chludiant cyhoeddus (gwasanaethau bws).

Ewch i'n tudalen [dogfennau ariannol] i weld ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig a dogfennau ariannol eraill.

## RHEOLI EIN PERFFORMIAD

Rydym yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad i reoli ein perfformiad o fewn y cyngor. Golyga hyn ein bod yn mesur sut ydym yn cyflawni yn erbyn yr addewidion a nodir yng Nghynllun y Cyngor.

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n gyrru gweithgareddau'r cyngor. Mae'r holl gynlluniau eraill yn cael eu hadeiladu ar hwn, gan gynnwys strategaethau penodol megis ein Cynllun Datgarboneiddio, Strategaeth Gwrth-dlodi a chynlluniau gwasanaeth, sy'n darparu manylion am gamau gweithredu, gweithgareddau a rhaglenni y bydd pob maes gwasanaeth yn eu cyflawni er mwyn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau o fewn pob un o flaenoriaethau'r cyngor.

Yn tanategu hyn oll mae cyfres o fesurau sy'n ein galluogi ni i olrhain sut ydym yn gwneud ac i ddeall effaith ein gwaith ar leoedd a phobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dyma ein mesurau canlyniadau.

Byddwn yn adrodd yn flynyddol, gan ddefnyddio mesurau canlyniadau, ar y cynnydd tuag at wireddu ein datganiadau canlyniadau yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllun y Cyngor. Bydd y mesurau canlyniadau hyn yn cael eu datblygu yn 2023.

Gellir dod o hyd i fwy o fanylion ar y ffordd rydym yn rheoli ein perfformiad ar ein tudalen fframwaith rheoli perfformiad ar ein gwefan.

### MONITRO PERFFORMIAD TUAG AT GYFLAWNI EIN CANLYNIADAU CYDRADDOLDEB

Er mwyn helpu i fonitro'r cynnydd rydym yn ei wneud tuag at ein canlyniadau cydraddoldeb, byddwn yn echdynnu'r mesurau canlyniad perthnasol i adroddiad amlygu canlyniadau cydraddoldeb o fewn ein hadroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllun y Cyngor.

# BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

## DARPARU GWASANAETHAU STRYD EFFEITHIOL A DATGARBONEIDDIO EIN HAMGYLCHEDD

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw amgylchedd glan, deniadol a chynaliadwy i les cymunedau ac i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae gwasanaethau amgylcheddol effeithiol a chadarn yn hanfodol bwysig o ran sicrhau bod canol ein dinas a'n cymunedau'n cael eu gofalu amdanynt yn dda, gyda phriffyrdd sydd mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

I wneud hyn bydd ein mannau agored a'r ardaloedd sy'n weladwy ac yn hygyrch i'n cymunedau'n cael eu rheoli'n briodol at y defnydd y'i bwriadwyd, ac yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn lân. Byddwn yn ymateb yn gyflym i achosion o faw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon yn ein cymunedau ac yn mynd ati'n rhagweithiol i leihau achosion o'r fath drwy adnabod 'mannau problemus', ymgysylltu â chymunedau i newid ymddygiad a chymryd camau gorfodi lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu Gwasanaethau Stryd effeithiol, yn unol â'n hymrwymiadau gwasanaeth, gan wella ein defnydd o dystiolaeth berthnasol i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau.

Gwyddom fod ein hisadeiledd priffyrdd yn hanfodol bwysig o ran cefnogi amrywiaeth o wasanaethau ac uchelgeisiau eraill y cyngor, yn cynnwys mynediad at wasanaethau, amddiffynfeydd rhag llifogydd, cynnal gwasanaethau/cyfleustodau, cyflogaeth a chysylltiadau economaidd. Byddwn yn sicrhau bod asedau cysylltiedig â'r priffyrdd yn ddiogel ac yn addas i'r pwrpas drwy archwiliadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd, yn unol â'n polisïau.

Drwy wella ein hamgylchedd byddwn yn sicrhau bod yr Argyfwng Hinsawdd, un o faterion pwysicaf ein cyfnod, yn flaenllaw yn yr holl benderfyniadau yr ydym yn eu gwneud. Fe wnaethom ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Medi 2019 ac mewn ymateb rydym wedi datblygu Cynllun Datgarboneiddio cadarn i sicrhau ein bod yn cydweithio â'n partneriaid a'n cymunedau i ddatblygu a datgarboneiddio ein hamgylchedd a mynd ar ôl ein huchelgeisiau sero-net.

Bydd ein hymdriniaeth yn seiliedig ar newid y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau gan arwain drwy esiampl a chynnwys ein cymunedau i wneud newid go iawn. Byddwn yn datblygu ffyrdd mwy cynaliadwy i bobl symud o gwmpas, ac o fewn y pymtheng mlynedd nesaf byddwn yn creu mwy o gyfleoedd i gerdded a beicio ar siwrneiau lleol fod yn rhywbeth arferol. Byddwn yn canolbwyntio ar yr ynni yr ydym yn ei ddefnyddio yr adeiladau yr ydym yn berchen arnynt a sut y gallwn barhau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i reoli gwastraff ac ailgylchu er mwyn cyrraedd ein targedau ailgylchu statudol a hefyd i gefnogi'r broses o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Byddwn yn parhau i weithio â phreswylwyr a chymunedau i hyrwyddo a darparu cyfleoedd i ailddefnyddio, ailgylchu a lleihau gwastraff. Byddwn yn casglu'r holl ddeunyddiau ailgylchu a gwastraff cartref gan breswylwyr os caiff ei gyflwyno yn y ffordd briodol a byddwn bob amser yn anelu at ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw gasgliadau a fethwyd.

Drwy ein Cynllun Datgarboneiddio byddwn hefyd y gweithio'n galed i sicrhau bod yr ymdrech i reoli newid hinsawdd wedi'i ymwreiddio yn holl wasanaethau'r cyngor. Er enghraifft, cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen i leihau allyriadau a chyflawni sero-net mewn ysgolion newydd; neu drwy ein hymrwymiad i leihau'r ôl-troed carbon drwy darpariaeth ein hamgylcheddau gweithio modern o fewn y cyngor.

Bydd Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn lle y mae ein cymunedau'n falch ohono, gydag amrywiaeth fawr o fannau agored sydd yn hygyrch, wedi'u rheoli'n dda ac yn gynaliadwy, ochr yn ochr â chynnig y nifer uchaf posibl effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Drwy adfer a diogelu ein mannau gwyrdd lleol, byddwn yn gwella ac yn ychwanegu at les pobl yn ogystal a gwella ein hamgylchedd

**Ein Canlyniadau Blaenoriaeth;  yr hyn yr ydym eisiau gweithio tuag ato:**

**yn nodi Amcan Cydraddoldeb Strategol*

1. Yr holl ardaloedd cymunedol a mannau chwarae sy'n eiddo i'r cyngor yn cael eu cadw'n lân, yn daclus ac yn ddiogel i'n plant a'n pobl ifanc gael chwarae yno.

2. Y cyngor yn ymateb i adroddiadau o faw cŵn a sbwriel drwy adnabod mannau problemus a defnyddio amrywiaeth o fesurau newid ymddygiad a gorfodaeth i rwystro hyn.

3. Adroddiadau o dipio anghyfreithlon ar dir y cyngor yn lleihau; pan maent yn digwydd ymateb iddynt drwy sicrhau bod y tir yn cael ei glirio mewn modd amserol, yn ogystal a defnyddio tystiolaeth i ddod o hyd i fannau problemus lle gallai fod yn fuddiol gosod camerâu TCC.

4. Yr holl ailgylchu a gwastraff cartref yn cael ei gasglu pan gaiff ei gyflwyno yn y  modd priodol, ac os ydym yn methu unrhyw gasgliadau, byddwn yn anelu at ymateb yn gyflym ac yn effeithiol.

5. Cadw'r holl asedau cysylltiedig â'r priffyrdd yn ddiogel ac yn addas i'r pwrpas drwy archwiliadau a chynnal a chadw rheolaidd yn unol â'n polisiau.

6. Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhywle ag amrywiaeth eang o fannau agored sydd yn hygyrch ac wedi'u rheoli'n dda.

7. Bwrdeistref Sirol sydd yn dod yn fwy cydnerth o ran cynllunio ar gyfer effeithiau newid hinsawdd drwy reolaeth risg effeithiol a rhaglenni cynnal a chadw.

8. Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd tuag at wireddu Allyriadau Carbon Sero-net erbyn 2030 drwy weithrediad y Cynllun Datgarboneiddio (2021-2030).  Rydym yn ystyried allyriadau carbon a chyfleoedd i secwestru carbon (dal, tynnu a storio carbon o'r atmosffer) yn ein holl benderfyniadau.

9. Mae'r cyngor yn arweinydd cymunedol cryf, gyda chynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu datblygedig sy'n rhannu arfer da ac yn hyrwyddo newidiadau cymunedol ac unigol.  Rydym yn mynd ati'n weithredol mewn partneriaeth ranbarthol a lleol gydag ysgolion, cymunedau a'n gweithlu ein hunain i ddod o hyd i gyfleoedd i gydweithio, rhannu syniadau a chynyddu dealltwriaeth o'n gwaith datgarboneiddio.

10. Cludiant a symudedd: mae gan y cyngor fflyd cludiant modern ac amgylcheddol gyfrifol, wedi'i gefnogi gan isadeiledd o safon gynyddol uchel, sy'n caniatáu i ni fod yn arweinydd mewn cerbydau allyriadau carbon isel. Byddwn yn ystyried yr angen i deithio ac yn sicrhau bod opsiynau teithio cynaliadwy yn eu lle i helpu i leihau ein hallyriadau carbon cyffredinol.

11. Mae isadeiledd cludiant Wrecsam yn diwallu anghenion preswylwyr a'r economi gyda gwell gwasanaethau cludiant cyhoeddus ac opsiynau cynaliadwy ar gyfer teithio a pharcio yn ac o amgylch canol y ddinas, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam ac ar draws y cymunedau gwledig, sy'n cefnogi Wrecsam fel cyrchfan ymwelwyr

12. Adeiladau: Bydd y cyngor yn lleihau ei alw am ynni wrth i ni wneud mwy o'n hadeiladau yn rhai carbon isel a di-garbon a dal ati i gynyddu effeithlonrwydd ynni. Byddwn yn lleihau allyriadau o'n hysgolion, swyddfeydd, canolfannau cymunedol ac ati flwyddyn ar ôl blwyddyn.

13. Caffael: Rydym yn weithredol flaenoriaethu lleihau carbon ac allyriadau drwy gaffael mwy cyfrifol a chynaliadwy a lle bynnag bosibl drwy gefnogi cyflenwyr a busnesau lleol a rhanbarthol

14. Y Defnydd o Dir: Mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod tir yn y Fwrdeistref Sirol yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal mewn modd cynaliadwy er budd y rhaglen bioamrywiaeth, gwytnwch yr ecosystem a datgarboneiddio, drwy reoli ei asedau ei hun a'i swyddogaethau rheoleiddio.

15. Mae holl aelwydydd Wrecsam yn cael eu cefnogi i weithio tuag at gynhyrchu dim gwastraff drwy gyfuniad o leihau, ail-ddefnyddio ac ailgylchu.

**Mae'r flaenoriaeth hon yn parhau i gyfrannu'n uniongyrchol at gyflawniad Nodau Llesiant Cymru:**

- Cymru Ffyniannus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru â Chymunedau Cydlynol
- Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang

# DATBLYGU'R ECONOMI

Fel dinas newydd Cymru, a oedd ar y rhestr fer ar gyfer Dinas Diwylliant y DU 2025, a Tŷ Pawb wedi'i enwebu ar gyfer Amgueddfa'r Flwyddyn gyda chyllid sylweddol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Amgueddfa Bêl-droed Cymru, nid yw Bwrdeistref Sirol Wrecsam erioed wedi bod mewn sefyllfa well i adeiladu ar y llwyddiannau hyn a datblygu economi gref a llewyrchus, gan ddarparu cyfoeth, cyfleoedd, cymdogaethau diogel ac iach a chefnogi buddsoddiad mewnol hirdymor parhaus ar gyfer isadeiledd a gwasanaethau allweddol.

Gyda'r pedwerydd GDP uchaf yng Nghymru (£27,595 y pen) mae'r economi yn perfformio'n dda ond mae heriau'n parhau. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau buddsoddiad yn Wrecsam a rhanbarth Mersi a Dyfrdwy, byddwn yn datblygu cyfleoedd economaidd ac yn creu amodau deniadol ar gyfer twf busnes a hybu entrepreneuriaeth i greu cyflogaeth a chyfoeth lleol. Cydnabyddir Wrecsam fel canolbwynt diwydiant a masnachu yng Ngogledd Cymru. Rydym yn ymdrechu i ddod yn arweinydd byd yn y sectorau digidol, ynni a gweithgynhyrchu uwch er mwyn denu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n talu'n dda yn yr ardal, ac i ddatblygu cadernid economaidd.

Fel y mwyafrif o strydoedd mawr ar draws y DU, mae canol y dref wedi gweld dirywiad yn ei gynnig manwerthu. Mae ein Cynllun Creu Lleoedd yn dangos bwriad ar gyfer canol dinas ddeniadol, fywiog ac wedi'i hail-ddychmygu gydag egwyddorion a fydd yn lledaenu buddion drwy'r Fwrdeistref Sirol ehangach. Bydd gwelliannau yn y parth cyhoeddus, teithio llesol ac eiddo gwag/problemus yn cefnogi cread lleoliadau ar gyfer diwylliant, chwaraeon, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol.

Mae diweithdra yn 4.9% ar hyn o bryd, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.6% (ffigyrau ONS 2022) gyda salwch hirdymor yn cynrychioli'r rhwystr fwyaf i waith. Ein nod yw lleihau ac atal anghydraddoldebau mewn cyflogaeth trwy dargedu'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r gweithlu a chynyddu swyddi diogel sy'n talu'n dda er mwyn cyfrannu tuag at Gymru gydnerth, lewyrchus, iach a mwy cyfartal.

Mae twristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at economi ehangach sir Wrecsam ond mae'n dal i adfer ar ôl Covid gyda gwariant ymwelwyr yn £101.02m yn 2021, o'i gymharu â £135.65m yn 2019. Bydd darparu Cynllun Rheoli Cyrchfan Wrecsam gyda'n partneriaid yn rhoi map llwybr integredig i adferiad, gan gynnwys datblygiadau yn Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.

**Ein Canlyniadau Blaenoriaeth; yr hyn yr ydym eisiau gweithio tuag ato:**

**yn dynodi Amcan Cydraddoldeb Strategol*

1. Mae Wrecsam yn ymgysylltu'n effeithiol yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan weithio mewn cydweithrediad i adeiladu economi mwy bywiog, cadarn, cynaliadwy a chysylltiedig ar gyfer Gogledd Cymru, trwy ddarparu Bargen Twf Gogledd Cymru a datblygu statws o fewn Pwerdy'r Gogledd.

2. Mae Wrecsam yn cael ei hysbysebu a'i gydnabod yn rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol fel canolbwynt bywiog o ddiwydiant a masnach, gyda'r gallu i fodloni'r galw am fewnfuddsoddiad a chreu'r amodau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad masnachol ac er mwyn i fusnesau sydd eisoes yn bodoli dyfu.

3. Mae gan Wrecsam Ganol Dinas dwys, amrywiol ac entrepreneuraidd gyda chymysgedd briodol o ddefnydd manwerthu, preswyl ac adloniant, trwy weithredu Cynllun Creu Lleoedd a fydd yn cynyddu hyder ar gyfer buddsoddwyr ac entrepreneuriaid a chefnogi gostyngiad mewn eiddo gwag.

4. Mae gan Fwrdeistref Sirol Wrecsam broffil uchel fel cyrchfan ymwelwyr sylweddol yng Ngogledd Cymru a'r Rhanbarth Mersi a Dyfrdwy ehangach. Cawn ein hadnabod am ein cynnig diwylliannol sy'n cynnwys cymunedau trefol a gwledig (gan gynnwys Safle Treftadaeth y Byd a Thaphont Ddŵr Pontcysyllte), ein treftadaeth pêl-droed, ein hunaniaeth Gymreig a'n gallu i gynnal digwyddiadau mawr yn y Cae Ras, wedi'i gefnogi gan ddarpariaeth Uwchgynllun Porth Wrecsam.

5. Mae cyfraddau cyflogaeth uchel a chyflenwad da o swyddi hygyrch sy'n talu'n dda. Canfyddir ac eir i'r afael â bylchau mewn sgiliau ynghyd â chyfleoedd gan arwain at dechnolegau a marchnadoedd newydd. Mae pobl sy'n profi rhwystrau yn cael eu cefnogi i sicrhau swyddi a chael mynediad a safleoedd cyflogaeth ac mae llwybrau gwella i gyflogaeth ar gyfer grwpiau lleiafrifol.

**Mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at holl Nodau Lles Cymru:**

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru â Chymunedau Cydlynol
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-Eang

# SICRHAU BOD WRECSAM YN LLE TEG A DIOGEL

Mae bod a theimlo'n ddiogel yn bwysig i drigolion ac ymwelwyr â'n Bwrdeistref Sirol a chanol y ddinas, a gall gael dylanwad dwys ar ansawdd bywyd pobl a'u gallu i ymgysylltu mewn modd cadarnhaol a boddhaus gyda'u cymuned. Mae'n bwysig ein bod yn creu amgylchedd lle mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.

Gan weithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus, ein nod yw adeiladu cymuned lle mae llai o bobl yn cael eu heffeithio gan drosedd ac i ddiogelu pobl, yn arbennig y rhai sy'n ddiamddiffyn, rhag camfanteisio, trais a chamdriniaeth. Byddwn yn gweithio i sicrhau os yw trosedd yn digwydd, fod dioddefwyr yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt, a bod mwy o bobl yn ymwybodol o arwyddion camfanteisio a thrais ac yn gwybod sut i adrodd am eu pryderon os ydynt yn poeni am ddiogelwch neu les rhywun.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cymuned deg, cyfiawn a chynhwysol a byddwn yn ymdrechu i adeiladu cymuned lle gall bawb gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i ffynnu a gwireddu eu potensial. Byddwn yn hyrwyddo a dathlu amrywiaeth a diwylliannau yn ein cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol, yn ymgysylltiedig ac yn groesawgar; a byddwn yn sicrhau y bydd pobl sy'n ceisio lloches yn y Fwrdeistref Sirol rhag rhyfel neu argyfwng dyngarol yn cael eu cefnogi i adeiladu dyfodol diogel a chynaliadwy.

Mae cartref diogel yn hanfodol ar gyfer lles a byddwn yn gweithio i alluogi pobl, yn arbennig y rhai mwyaf diamddiffyn, i gael mynediad at lety o ansawdd da, sy'n briodol i'w hanghenion, yn y sector tai cyhoeddus neu breifat.  Byddwn yn helpu pobl i gael mynediad at gymorth i gynnal eu tenantiaethau lle bod angen, gan leihau'r risg y bydd pobl yn profi digartrefedd a chysgu ar y stryd.

Yn 2021 roedd cyfanswm o 57,915 o aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. O'r rhain, roedd 53.1% yn ddifreintiedig mewn o leiaf un o'r pedwar dimensiwn difreintiedig yn ôl diffiniad Cyfrifiad 2021. Yn yr argyfwng costau byw presennol rydym yn cydnabod yr angen i fod yn ymatebol i heriau sy'n codi o amgylchiadau newidiol pobl. Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau fod pawb, yn arbennig unrhyw un sy'n ddiamddiffyn, yn profi tlodi neu'n delio â heriau costau byw, yn cael mynediad at gymorth a gwasanaethau, gan gynnwys digidol, i alluogi gwell cadernid ariannol, gwell iechyd ac amodau byw a gwell ansawdd bywyd.

**Ein Canlyniadau Blaenoriaeth; yr hyn yr ydym eisiau gweithio tuag ato:**

**yn dynodi Amcan Cydraddoldeb Strategol*

1. Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn cefnogi cymunedau i deimlo ac i fod yn fwy diogel, gyda gwell cymorth ar gyfer dioddefwyr trosedd.

2. *Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camfanteisio, trais a'r holl ffurfiau o gamdriniaeth, trwy weithio mewn partneriaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o'r rhai sy'n ddioddef camfanteisio a'r llwybrau adrodd sydd ar gael.

3. *Mae ein cymunedau yn groesawgar, rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau ac yn sicrhau mynediad priodol at bob gwasanaeth i bawb.

4. *Mae ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n hawdd, trwy systemau digidol sydd wedi'u hadeiladu o amgylch eu hanghenion. Mae ein gwasanaethau'n gynhwysol ac rydym yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r cwsmeriaid hynny a hoffai ddefnyddio ein gwasanaethau digidol, yn ogystal â pharhau i gynnig ffyrdd mwy traddodiadol o gysylltu â ni ar gyfer y rhai sydd angen hynny.
5. *Mae Wrecsam yn rhywle lle mae pawb yn gwybod y gallant gymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae pobl yn teimlo'r ymgysylltiad a bod y cyngor yn ymgynghori â nhw ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a ble bynnag bosib ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau a gwneud i bethau ddigwydd gyda'n gilydd.
6. *Mae pobl sy'n chwilio am loches rhag rhyfel neu argyfwng dyngarol yn cael eu cefnogi i adeiladu dyfodol cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol.
7. Gall ein deiliaid contract tai cyngor gael mynediad at fwy o dai o ansawdd uchel, a thai gwarchod wedi'u cefnogi gan wasanaethau ymatebol modern ac effeithlon.
8. Mae mwy o bobl yn byw mewn llety sector preifat a chyhoeddus o ansawdd gwell, sy'n cydymffurfio â safonau a deddfwriaeth tai cenedlaethol.
9. Bydd pobl yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i lety addas ac i gynnal eu tenantiaethau, fel bod llai o bobl yn profi digartrefedd a llai yn cysgu ar y stryd.
10. Bydd gan yr holl gymunedau a phobl, yn arbennig y rhai diamddiffyn a'r rhai sy'n profi tlodi a/neu effeithiau'r argyfwng costau byw, fynediad at wasanaethau, cyngor a chymorth sy'n cefnogi lles ariannol ac iechyd da ac amodau byw, ynghyd â chyfleoedd i gymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden, cymdeithasol a chyflogaeth, i wella eu hansawdd bywyd.

**Mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y Nodau Lles canlynol:**

- Cymru Gydnerth
- Cymru â Chymunedau Cydlynol
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- A globally responsible Wales

# GWELLA ADDYSG A DYSGU

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rydym yn cydnabod yr effaith y mae addysg a dysgu yn ei gael ar bob grŵp oedran ac yn Wrecsam mae gennym lawer o ysgolion da a sefydliadau addysg ffurfiol ac anffurfiol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i bartneriaid wedi gweithio'n galed i sicrhau fod ein holl ddysgwyr yn cael yr un cyfleoedd i addysg o safon uchel drwy wella ein cynnig fel Awdurdod Lleol i gefnogaeth, her ac ymyrraeth i greu system gynaliadwy sy'n gwella ei hun. Wrth symud ymlaen mae'n hanfodol ein bod yn gwella canlyniadau a dyheadau addysgol ar draws y Fwrdeistref Sirol gan ddarparu cyfleoedd i'n dysgwyr wireddu eu potensial, waeth beth yw eu hoedran, cefndir neu amgylchiadau, gan roi'r cyfle gorau posib i'n dysgwyr mewn bywyd.

Wrth wneud hyn rydym yn cydnabod fod bwlch sylweddol yn parhau mewn canlyniadau addysgol o fewn ac ar draws grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr sydd wedi'u heffeithio gan dlodi. Wrth gydweithio gyda'n partneriaid, byddwn yn cefnogi dysgwyr i oresgyn rhwystrau i ddysgu. Byddwn yn darparu cynnig anghenion dysgu ychwanegol effeithiol, yn darparu amgylcheddau dysgu hygyrch, gwella pontio rhwng camau dysgu a chanolbwyntio ar ymyraethau cynnar i gefnogi dysgwyr i oresgyn heriau a chyfrannu'n weithredol i'w dysgeidiaeth. Ymdrechwn i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysgol, gan gynnwys lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyflawniad dysgwyr a chefnogi ein dysgwyr i gael iechyd a lles emosiynol gwell.

Wrth wella canlyniadau addysgol rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwahanol gamau o addysg a dysgu a sut mae pob cam yn effeithio ar y nesaf. Felly mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â mwy na dim ond ein dysgwyr oedran ysgol ond hefyd yn ymwneud â darparu sgiliau am oes. Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu cwricwlwm eang yn unol â Chwricwlwm Newydd Cymru a chefnogi ein plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog gan sicrhau eu bod yn barod ac yn cael eu cefnogi i gael mynediad at brentisiaethau, cyfleoedd hyfforddiant, addysg uwch ac ail-hyfforddi. Rydym eisiau canolbwyntio ar wella cyfleodd dysgu gydol oes a byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno darpariaethau dysgu i oedolion, trwy weithio gyda'n partneriaid a'r ystod o leoliadau addysg sydd gennym o fewn y Fwrdeistref Sirol. Byddwn yn rhoi cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau ac i godi a chyflawni eu dyheadau.

**Ein Canlyniadau Blaenoriaeth; yr hyn yr ydym eisiau gweithio tuag ato:**

**yn dynodi Amcan Cydraddoldeb Strategol*

1. Er mwyn cefnogi ein huchelgeisiau economaidd a lles ar gyfer Wrecsam, mae deilliannau dysgwyr o bob oed yn well, maent yn gallu gwireddu eu potensial a dod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu cymunedau.

2. Caiff ein dysgwyr eu cefnogi i ymgysylltu â'u haddysg ac i fod â dyheadau; gwneud y mwyaf o sgiliau newydd, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc.

3. Dylai ein dysgwyr fynychu'r ysgol yn rheolaidd gyda mwy o blant a theuluoedd yn cael eu cefnogi ar gam cynharach er mwyn cynyddu presenoldeb, gwella diogelu a lleihau'r nifer o waharddiadau a gwella ymddygiad.

4. Mae ein dysgwyr yn cyfrannu'n weithredol at eu dysgu eu hunain ac mae eu gwytnwch, eu hiechyd a'u lles wedi'u cefnogi gan gydweithio gyda'n partneriaid.

5. * Caiff yr holl ddysgwyr eu cefnogi i wella eu canlyniadau addysgol, a bydd anghydraddoldebau mewn canlyniadau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgu yn cael eu lleihau.

6. * Mae ein dysgwyr yn cael profiad dysgu cadarnhaol trwy fynediad at amgylchedd sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben ac yn caniatáu dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

**Mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y Nodau Lles canlynol:**

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

# HYBU IECHYD A LLES DA (GAN GANOLBWYNTIO AR WASANAETHAU CYMDEITHASOL AC IECHYD MEDDWL DA)

Mae iechyd a lles da yn effeithio ar bob agwedd o'n bywydau ac yn ganolog i sicrhau fod pobl yn ein cymunedau'n cael y cyfleoedd bywyd gorau sydd ar gael iddynt. Felly mae cefnogi a galluogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i fod yn gryf ac i gael iechyd corfforol ac iechyd a lles meddyliol da yn hanfodol, fel bod pobl yn gallu elwa o fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl a bod effeithiau anghydraddoldebau iechyd wedi'u lleihau.

I barhau ar ein siwrnai o welliant er mwyn gwella iechyd a lles byddwn yn symud ymlaen gyda'n gwaith i integreiddio a thrawsnewid ein gwasanaethau atal a chymorth cynnar, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau fod pobl yn cael y cymorth iawn cyn gynted â phosibl, gan arwain at ganlyniadau gwell, a fydd yn ei dro yn lleihau'r galw ar wasanaethau yn hwyrach ymlaen. Byddwn yn canolbwyntio ar wasanaethau drws ffrynt effeithiol a gwell gwybodaeth, cyngor a chyfeirio ar y cyswllt cyntaf. I'r rhai sydd angen gwasanaethau statudol byddwn yn ceisio gwella llwybrau at y gofal iawn.

Wrth ddarparu iechyd a lles da byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant siwrnai welliant y gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddarparu'r lefel iawn o ofal a chymorth. lle mae holl blant ac oedolion diamddiffyn yn, ac yn teimlo'n ddiogel ac yn cael y cyfle i gyflawni i'w llawn botensial a byw bywydau hapus a boddhaus lle mae lleisiau unigolion yn ganolog i'n harferion.

O fewn y flaenoriaeth hon rydym wedi cydnabod pryderon cynyddol o amgylch cymorth iechyd meddwl. Mae iechyd meddwl da yn bwysig ar bob cam o fywyd ac yn helpu i benderfynu sut ydym yn gwneud dewisiadau bywyd yn hirdymor, yn cysylltu ag eraill ac yn ymdopi â straen. Rydym wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar wella'r gefnogaeth ar gyfer plant ac oedolion i gael iechyd meddwl da. Byddwn yn gwneud hyn drwy gydweithio gyda'n partneriaid gwasanaeth cyhoeddus, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau eraill y cyngor, gan ganolbwyntio ar atal yn gynnar a helpu i leihau'r achosion lle bo heriau iechyd meddwl yn datblygu i fod yn fwy cymhleth.

Trwy gydol y flaenoriaeth hon byddwn yn gweithio'n agos gyda chymunedau, budd-ddeiliaid a phartneriaid i adeiladu cymunedau cryf, iach a chadarn lle mae lles corfforol a meddyliol yn cael ei hybu a chefnogi pobl i gyflawni eu potensial.

**Ein Canlyniadau Blaenoriaeth; yr hyn yr ydym eisiau gweithio tuag ato:**

**yn dynodi Amcan Cydraddoldeb Strategol*

1. Mae llai o blant sydd angen gofal gan y cyngor o ganlyniad i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal effeithiol, gan leihau'r angen am ymyrraeth bellach.

2. Mae gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fynediad at ofal maeth hirdymor sefydlog, a lleoliadau preswylio â chefnogaeth ( gyda mwy o ddarpariaeth mewnol) ac yn cael profiadau da o fewn y lleoliadau hyn gan eu galluogi i ffynnu a chyflawni'r canlyniadau iawn.

3. Mae pobl yn derbyn y gofal a'r cymorth iawn ar gyfer eu hanghenion, yn y lle iawn ac ar yr amser iawn, trwy ofal gwell yn y cartref, ail-alluogi a chapasiti therapi galwedigaethol (gyda llai o amseroedd aros ar gyfer asesiadau Therapi Galwedigaethol), wedi'i gyflawni drwy waith partneriaeth effeithiol.

4. *Mae cymunedau a gwasanaethau yn cydweithio i helpu plant ac oedolion i gael iechyd meddwl a lles da. Mae ffocws ar gymorth iechyd meddwl a ddarperir drwy wasanaethau iechyd meddwl atal a chymorth cynnar er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau yn hwyrach ymlaen.

5. Mae gan bawb fynediad at y lefel iawn o ofal a chymorth ar gyfer eu hanghenion, drwy ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cyson o ansawdd da, wedi'i gefnogi gan Fwrdd Gwella Gofal Cymdeithasol.

6. *Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cymdeithasol yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio drwy wrando ar yr hyn y mae plant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr yn ei ddweud wrthym.

7. Mae plant, oedolion a theuluoedd yn cael eu diogelu gan y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a phartneriaid statudol.

**Mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Nodau Lles canlynol:**

- Cymru Iachach
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru â Chymunedau Cydlynol

# CEFNOGI GWEITHLU AC YMGYSYLLTIEDIG SY'N CANOLBWYNTIO AR DDARPARU GWASANAETHAU

Mae'n rhaid bod â gweithlu medrus, amrywiol a chynaliadwy i ddarparu'r gwasanaethau y mae ein cymunedau eu hangen a'u heisiau. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 'Gyflogwr Delfrydol' er mwyn denu, recriwtio a chadw unigolion sydd â'r sgiliau a'r profiadau a fydd yn fanteisiol i'n cymunedau. Rydym yn sylweddoli fod hon yn dasg heriol yn y cyd-destun cenedlaethol o farchnad recriwtio hynod gystadleuol ac rydym yn anelu at barhau i ymateb gyda mentrau newydd i gefnogi recriwtio a dal gafael ar staff, er enghraifft yr ymagwedd 'Tyfu eich Talent Eich Hun' i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio, yn enwedig mewn rhai meysydd penodol fel gofal cymdeithasol.

Mae iechyd a lles ein gweithwyr yn hanfodol o ran cynnal gweithlu cryf a hyblyg i ddarparu ein gwasanaethau. Byddwn yn cefnogi ein gweithlu drwy sicrhau ein bod yn cynnal ein hymagwedd weithredol tuag at les gweithwyr a lles corfforaethol. Byddwn yn sicrhau bod arferion rheoli pobl cadarn yn eu lle i gefnogi a rheoli gweithwyr sy'n profi cyfnodau o salwch ac i gynnal lefelau uchel o bresenoldeb a pharhau i leihau lefelau absenoldeb.

Byddwn yn dal ati'n weithredol i hyrwyddo a chynnal y Gymraeg a diwylliant Cymru yn ein gweithlu a'n cymunedau i ysgogi balchder yn ein Cymreictod. Mae'n hollbwysig fod y cyngor yn parhau i sicrhau ei fod yn cadw at Safonau'r Gymraeg.

Mae'r amcan hwn yn un trawsbynciol ac yn helpu'r cyngor i ddarparu gwelliannau ar draws ei holl amcanion llesiant a'n gwasanaethau a bydd yn cyfrannu at bob un o'r saith Nod Llesiant – ond yn benodol mae'n cefnogi'n uniongyrchol y nodau o Gymru Gydnerth sy'n gyfrifol yn fyd-eang gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

**Ein Canlyniadau Blaenoriaeth; yr hyn yr ydym eisiau gweithio tuag ato:**

**yn dynodi Amcan Cydraddoldeb Strategol*

1. Mae gan y cyngor ddiwylliant rheoli pobl cryf a threfniadau i gefnogi lles gweithwyr a rheoli absenoldeb salwch yn effeithiol, gan arwain at well presenoldeb a lefelau is o absenoldeb salwch.

2. Mae lles ein gweithwyr wedi'i gefnogi gan amrywiaeth o fentrau iechyd a lles corfforaethol

3. *Mae'r cyngor yn 'gyflogwr delfrydol' sy'n gallu recriwtio a dal gafael ar weithlu amrywiol a chynaliadwy, gydag ymagwedd fodern tuag at waith a fframwaith o wobrau a buddion gweithwyr.

4. *Bydd unrhyw wahaniaeth mewn tâl rhwng dynion a merched yn cael ei adolygu er mwyn ei ddeall yn well. Bydd unrhyw waith priodol yn dechrau i fynd i'r afael â'r bwlch hwn ac unrhyw fylchau eraill mewn tâl lle bo hynny'n briodol.

5. *Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru'n ffynnu yn ein gweithlu a'n cymunedau ac yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi'n weithredol.

6. Mae cyllid y cyngor yn cael ei reoli'n dda a chaiff adnoddau eu clustnodi i gefnogi darpariaeth gwasanaethau cynaliadwy a gwydn sy'n cefnogi darpariaeth ein gwasanaethau'n uniongyrchol.

**Mae'r Flaenoriaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Nodau Llesiant canlynol:**

- Cymru ffyniannus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru a diwylliant ffyniannus lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru â chymunedau mwy cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Croesawn eich sylwadau ar gynnwys a fformat Cynllun y Cyngor. Os oes gennych awgrymiadau neu sylwadau ynglŷn â sut i wneud y cynllun yn fwy darllenadwy, neu os ydych o'r farn y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar feysydd eraill neu ychwanegol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod. Bydd pob awgrym ynglŷn â meysydd eraill i ganolbwyntio arnynt yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o reoli perfformiad a diweddaru'r cynllun hwn. Bydd sylwadau ynglŷn â'r cynllun yn cael eu hystyried cyn y dyddiad cyhoeddi nesaf.

**Cysylltwch â ni**

tellusWhatyouthink@wrexham.gov.uk